Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch

Beth ydyn nhw a beth maen nhw'n ei feddwl i chi



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'A'Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch'**.

Awst 2025

# Cynnwys


Am y Safonau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch 4

Pam mae'r Safonau yn bwysig 5

Ar gyfer pwy mae'r Safonau 6

Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud 8

Beth mae'n rhaid i wasanaethau iechyd ei wneud 10

Cofnodion cleifion 11

Gwybodaeth i gleifion 12

Ardaloedd derbynfa 13

Gwasanaethau ar-lein 14

Llythyrau 15

Adeiladau a gofodau 16


Daw'r lluniau yn y ddogfen hon o Photosymbols:
[www.photosymbols.com/](www.photosymbols.com/)


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51371, ISBN digidol 978-1-80633-024-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Y Safon mewn gwahanol leoedd 18

Meddygfeydd 18

Gwasanaethau arbenigol 20

Gofal brys 22

Gwirio bod y Safonau'n gweithio 23

Adborth a chwynion 24

Hyfforddiant staff 25

Mwy o wybodaeth 26

Gwybodaeth Iechyd Hawdd ei Ddeall 29

Gwybodaeth Archwiliadau Iechyd Blynyddol Hawdd ei Ddeall 30

# Am y Safonau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ni ydy Llywodraeth Cymru



Mae'r ddogfen yma am **Safonau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch Cymru**.




Mae **Safonau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch Cymru** yn set o reolau newydd.

Fe fyddwn ni'n eu galw'n **Safonau** yn y ddogfen yma.



**Mae'r Safonau** yn dweud beth mae'n rhaid i wasanaethau gofal iechyd ei wneud i gyfathrebu â phobl.

## Pam mae'r Safonau yn bwysig

Mae'r **Safonau** yma yn helpu i wneud gofal iechyd yn deg i bawb.



Maen nhw'n helpu pobl sy'n ei chael hi'n anodd deall neu rannu gwybodaeth.



Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod staff iechyd yng Nghymru yn rhoi'r gefnogaeth gywir i bawb.

# Ar gyfer pwy mae'r Safonau

Mae'r **Safonau** yma yn cefnogi pawb sydd angen help ychwanegol gyda chyfathrebu.

Mae hyn yn meddwl pobl sydd:



- Yn F/fyddar, wedi colli eu clyw, neu'n drwm eu clyw.



- Yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.



- Yn ddall neu gyda golwg gwael.


- Yn fyddar-ddall.



- Yn anabl.



- Â dementia.



- Yn niwrowahanol.
  Mae niwrowahanol yn meddwl pobl ag ymennydd sy’n gweithio’n wahanol. Er enghraifft, mae awtistiaeth yn gyflwr niwrowahanol.



- Yn gweld darllen neu ysgrifennu yn anodd.



- Yn rhieni neu ofalwyr sy’n ei chael hi’n anodd deall neu gyfathrebu.




- Ddim yn siarad Cymraeg na Saesneg fel eu prif iaith.

# Beth mae’r gyfraith yn ei ddweud




Mae’r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i ofal iechyd fod yn deg i bawb.

Rhaid i wasanaethau gofal iechyd wneud newidiadau fel bod pobl ag anghenion gwahanol yn gallu cael help yn hawdd.




Rhaid i wasanaethau wneud y newidiadau hyn **cyn** i broblemau ddigwydd.



Mae cyfathrebu da yn bwysig. Mae cyfathrebu gwael yn gallu arwain at ofal gwael.

Mae cyfathrebu da yn meddwl bod pobl yn:

- Deall eu hiechyd a'u gofal.




- Teimlo'n hyderus i ofyn cwestiynau.

- Gallu gwneud dewisiadau da.



- Yn fwy tebygol o aros yn iach.

Mae **cyfathrebu hygyrch** yn meddwl gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu deall gwybodaeth.

# Beth mae'n rhaid i wasanaethau iechyd ei wneud



Rhaid i wasanaethau iechyd ddefnyddio'r cymorth cywir i ateb anghenion pobl.

**Mae gwasanaethau cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch** yn helpu:



- Cleifion.



- Staff iechyd.



- Gofalwyr.

Maen nhw'n helpu i stopio problemau cyfathrebu a gwneud gofal yn well.

**Rhaid i bob gwasanaeth gofal iechyd yng Nghymru ddilyn y Safonau yma.**

## Cofnodion cleifion

Rhaid i wasanaethau gofal iechyd gadw cofnod o:



- Sut mae angen i bob claf gael gwybodaeth.




- Os ydy claf eisiau defnyddio Cymraeg neu iaith arall.

Mae hyn yn helpu staff i baratoi cyn apwyntiad.



Rhaid i bob aelod o staff gael y wybodaeth yma.



Mae technoleg ddigidol yn gallu helpu. Mae hyn yn meddwl defnyddio pethau fel cyfrifiaduron, gliniaduron a gwasanaethau ar-lein.

## Gwybodaeth i gleifion




Rhaid i daflenni gwybodaeth
a dogfennau fod yn hygyrch.
Er enghraifft, yn Hawdd ei Ddeall.

Rhaid i bob maes gofal iechyd
gefnogi eich anghenion cyfathrebu
a gwybodaeth.



Mae hyn yn cynnwys lleoedd
fel wardiau ysbyty, adrannau
damweiniau ac achosion brys,
a phractisiau meddygon teulu.

Rhaid i staff ofyn i chi pa gymorth
rydych chi ei angen.



Rhaid i bob adran GIG gael person
sy'n gyfrifol am y gwaith yma.

## Ardaloedd derbynfa



Rhaid i ardaloedd derbynfa ddweud wrthych am eich hawliau i gael **cyfieithydd**.



Mae hyn yn cynnwys dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain.

Rhaid i chi allu dweud wrth staff sut rydych chi eisiau cael gwybodaeth.



Rhaid hyfforddi staff y dderbynfa i ofyn am anghenion cyfathrebu.



Fe ddylai pob ardal dderbynfa fod â dolen glyw neu dechnoleg arall ar gyfer pobl fyddar. Mae dolen glyw yn system sain arbennig ar gyfer pobl â chymhorthion clyw.

## Gwasanaethau ar-lein

Rhaid i wasanaethau ar-lein fod yn hawdd i'w defnyddio.

Fe ddylen nhw:



- Weithio gyda **darllenwyr sgrin**. Mae darllenwyr sgrin yn darllen testun ar sgrin yn uchel.



- Ddefnyddio lliwiau a chynllun clir.
- Osgoi delweddau sy'n fflachio a chefndiroedd sy'n anodd eu gweld.
- Ddefnyddio iaith plaen a chlir.

testun mawr

- Ddefnyddio testun clir mawr gyda bylchau da.
- Roi opsiynau eraill, fel fideos.

## Llythyrau



Rhaid i bob llythyr fod yn hawdd ei ddarllen a'i ddeall.



Fe ddylai llythyr apwyntiad gynnwys lluniau defnyddiol. Er enghraifft, llun o'r adeilad neu'r safle bws agosaf.



Rhaid rhoi gwybodaeth mewn ffordd rydych chi'n gallu ei ddeall.

Mae hyn yn cynnwys:



- Gwybodaeth ysgrifenedig.



- Galwadau ffôn.

## Adeiladau a gofodau

Rhaid i adeiladau gofal iechyd fod yn hawdd i'w defnyddio a'ch helpu i ddeall beth sy'n digwydd.

Fe ddylai adeiladau a gofodau:




- Cael goleuadau da sydd wedi eu gosod allan yn gyfartal.

- Defnyddio lliwiau sy 'n hawdd eu gweld.



- Lleihau sŵn lle mae'n bosibl.



- Cael ystafelloedd preifat i chi siarad am faterion personol.



- Cynnwys systemau dolen glyw neu dechnoleg arall i gefnogi pobl fyddar. Mae dolen glyw yn system sain arbennig ar gyfer pobl â chymhorthion clyw.

**Derbyniad / Reception**

- Cael arwyddion clir sy'n hawdd eu deall yn Gymraeg a Saesneg.

- Defnyddio negeseuon ar sgriniau sy'n cael eu darllen yn uchel hefyd.



Mae masgiau wyneb yn gallu ei gwneud hi'n anodd deall pobl. Fe ddylai staff iechyd ddefnyddio masgiau clir lle mae angen fel bod pobl yn gallu darllen gwefusau.

# Y Safonau mewn gwahanol leoedd

## Meddygfeydd



Pan fyddwch chi'n cofrestru gyda meddyg teulu newydd, rhaid i staff ofyn am eich anghenion cyfathrebu.

Rhaid i staff edrych i weld eich bod chi'n deall y cwestiynau.

Rhaid i feddygon teulu gasglu'r wybodaeth yma ar gyfer cleifion presennol hefyd.



Rhaid i feddygon teulu rannu'r wybodaeth yma gyda gwasanaethau eraill. Ddylech chi ddim gorfod ailadrodd eich anghenion.

Fe ddylech chi allu trefnu apwyntiadau mewn gwahanol ffyrdd:



- Ffôn

- Testun




- E-bost




- Gwefan



Pan fyddwch chi'n cyrraedd, rhaid i staff wneud yn siŵr nad ydych chi'n colli eich apwyntiad. Er enghraifft, fe ddylan nhw roi gwybod i chi pan fydd y meddyg teulu yn barod i'ch gweld chi.

Rhaid i ofalwyr a rhieni ag anghenion gael cymorth hefyd.



Os ydy eich meddyg teulu yn eich anfon at wasanaethau iechyd eraill, mae dal rhaid i chi gael y cymorth cywir gyda'ch anghenion cyfathrebu.

Ni ddylech aros yn hirach am ofal oherwydd eich bod chi angen help gyda chyfathrebu.

## Gwasanaethau arbenigol

Mae hyn yn meddwl gwasanaethau fel:




- Timau anabledd dysgu.
- Gwasanaethau iechyd meddwl.



- Timau diabetes.

Rhaid i feddygon teulu rannu eich anghenion gyda'r timau yma.

Fe ddylech chi allu gwneud
neu newid apwyntiadau mewn
gwahanol ffyrdd.



Fe ddylai staff gael eu hyfforddi
i'ch cefnogi gyda'ch anghenion
cyfathrebu.

Rhaid i chi gael gwybod bod gennych
yr hawl i gyfathrebu hygyrch.



Rhaid i weithwyr cymorth allu aros
gyda chi pan fo angen. Mae hyn yn
cynnwys y tu allan i oriau ymweld.



Rhaid i staff wneud yn siŵr eich bod
yn deall yr holl wybodaeth maen
nhw'n ei roi i chi.

## Gofal brys



Mae gofal brys ar gyfer pan fydd rhywun angen help yn gyflym.

Mae'n rhaid i chi gael cymorth cyfathrebu mewn gofal brys o hyd.



Rhaid bod dehonglwyr iaith ar gael.

Rhaid **fflagio** cofnodion cleifion. Mae hyn yn meddwl bod staff yn gallu gweld yn gyflym pa gefnogaeth rydych chi ei angen.




Rhaid i'r holl wybodaeth fod mewn fformat rydych chi'n gallu ei ddeall. Er enghraifft, yn Hawdd ei Ddeall.

# Gwirio bod y Safonau'n gweithio



Mae angen gwirio'r **Safonau** yma i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio'n dda.

Gwirio bob
**2 flynedd**



Fe fyddan nhw'n cael eu gwirio bob 2 flynedd. Fe fydd adrannau'r GIG, Llywodraeth Cymru a'r bobl y mae'r **Safonau** ar eu cyfer yn eu gwirio.

# Adborth a chwynion

Rhaid i bawb wybod sut i:

- Roi adborth.




- Wneudcŵyn.

Rhaid rhoi gwybodaeth am gwynion i chi mewn ffordd rydych chi'n gallu ei ddeall.



Fe ddylid gofyn i staff hefyd beth maen nhw'n meddwl am y **Safonau**.

# Hyfforddiant staff

Fe ddylai pob aelod o staff ddysgu:



- Am wahanol ffyrdd o gyfathrebu.
- Pam mae cyfathrebu da yn bwysig.



Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n gwneud gwaith i'r GIG ond sydd ddim yn staff y GIG.

Rhaid i staff ddysgu sut i gyfathrebu'n dda â phobl sydd ag anghenion cyfathrebu ychwanegol.

Mae pob bwrdd iechyd yn cynnig **Hyfforddiant Anabledd Dysgu Paul Ridd**.

# Mwy o wybodaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyma 1 o 3 dogfen newydd sydd wedi cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru gyda phartneriaid.



Y ddogfen gyntaf ydy **Safonau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch Cymru (AIS)**.

Mae'r **Safonau** yma yn dweud beth mae'n rhaid i wasanaethau gofal iechyd ei wneud i gyfathrebu â phobl.



Yr ail ddogfen ydy'r **Safon Gwybodaeth Hygyrch ar gyfer meddygon teulu**.

Mae'r AIS yn helpu practisau meddygon teulu i roi'r help cywir i bobl sy'n gweld cyfathrebu yn anoddach.




Dyma ddogfen hawdd ei ddeall am yr AIS: [www.llyw.cymru/safonau-cyfathrebu-gwybodaeth-hygyrch-mewn-gofal-iechyd](www.llyw.cymru/safonau-cyfathrebu-gwybodaeth-hygyrch-mewn-gofal-iechyd)



Y drydedd ddogfen ydy **Rheolau newydd ar gyfer staff y GIG sy'n defnyddio gwasanaethau cyfieithwyr ar y pryd a chyfieithu mewn gofal iechyd**.

Mae'r rheolau yma yn dweud sut i drefnu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd  neu gyfieithu i gleifion.




Mae cyfieithu yn meddwl newid geiriau ysgrifenedig i iaith arall. Mae cyfieithu ar y pryd yn meddwl newid geiriau llafar i iaith arall.




There is an Easy Read document about these rules here: [www.llyw.cymru/safonau-cyfathrebu-gwybodaeth-hygyrch-mewn-gofal-iechyd](www.llyw.cymru/safonau-cyfathrebu-gwybodaeth-hygyrch-mewn-gofal-iechyd)

Fe fydd y rheolau a'r safonau yma i gyd yn helpu pobl:

- Ddeall eu iechyd a'u gofal




- Deimlo'n hyderus i ofyn cwestiynau

- Wneud dewisiadau da



- Gadw'n iach

Am ragor o wybodaeth ar y rheolau a'r safonau newydd:




Ewch i'n gwefan: www.llyw.cymru/safonau-cyfathrebu-gwybodaeth-hygyrch-mewn-gofal-iechyd




Neu anfonwch e-bost atom: hsceyg.equalityteam@gov.wales

## Gwybodaeth Iechyd Hawdd ei Ddeall




I gael gwybodaeth iechyd hawdd ei ddeall, rhowch gynnig ar Iechyd A-Z Hawdd ei Ddeall GIG Cymru: 111.wales.nhs.uk/easyreads/easyread.aspx

## Gwybodaeth Archwiliadau Iechyd Blynyddol Hawdd ei Ddeall




Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi creu pecyn adnoddau hawdd ei ddeall ar gyfer **Archwiliadau Iechyd Blynyddol**.

Yn y pecyn, mae gwybodaeth ddefnyddiol ac adnoddau hawdd ei ddeall i'ch helpu i gael eich Archwiliad Iechyd Blynyddol.




Mae ar gael yma:
bit.ly/HawddeiDdeallAIB